



Tasg Arbennig – Ein Hawliau

Cynllun gwrs / gweithgaredd i gyflwyno plant yng Nghyfnod Allweddol 2 i hawliau plant a rôl Comisiynydd Plant Cymru (ComPlantCymru).

Adnoddau

- Dau gerdyn A4 gydag EISIAU ar un ohonyn nhw ac ANGEN ar y llall
- [Ffilm i ddangos pwy yw Sally](#)
- [Poster hawliau plant](#)

Amcanion Dysgu

- Bod y disgyblion yn ystyried beth yw hawliau plant
- Bod y disgyblion yn ystyried pa hawliau maen nhw'n eu cael (mynediad) neu ddim yn eu cael (atal mynediad)
- Bod y disgyblion yn deall pwy yw Sally Holland a rôl ei swyddfa
- Bod y disgyblion yn ystyried eu rôl wrth greu dosbarth / ysgol sy'n cefnogi hawliau

Geirfa Allweddol

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP): y ddogfen ryngwladol sy'n cyflwyno hawliau plant.

Hawliau: "Pethau rydych chi eu hangen i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel"

Comisiynydd Plant Cymru: "Oedolyn yng Nghymru yw Sally Holland, a'i gwaith hi yw helpu holl blant Cymru i fod yn hapus, yn iach ac yn ddiogel"

Negeseuon Allweddol

Dylai pob plentyn yng Nghymru gael y pethau sydd eu hangen amyn nhw i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel.

Dylai pob oedolyn wneud yn siŵr eu bod nhw'n cefnogi plant i gael eu hawliau.

Mae Sally Holland, y Comisiynydd Plant, yn sefyll i fyny dros holl blant Cymru

Cyflwyniad: Beth yw Hawliau Plant?

- Esboniwch wrth y disgyblion eich bod chi'n mynd i siarad am hawliau plant: "pethau sydd eu hangen amyn nhw i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel".
- Dangoswch y fideo fer o'r enw 'Hawliau Plant, Ha!' yn Gymraeg (<https://vimeo.com/142124812>)

Prif Effen: Ydych chi'n cael profiad o'ch hawliau? (Efallai bydd angen lle mewn neuadd i chi wneud hyn.)

- Rhowch dri darn o bapur A4 ar y llawr: un yn dweud YDW; un FALLE; ac un NAC YDW. Esboniwch y byddwch chi'n gofyn cyfres o gwestiynau a'ch bod chi eisiau i'r disgyblion feddwl drostynt eu hunain a sefyll agosaf at y mat YDW / NAC YDW / FALLE sy'n adlewyrchu eu hateb.
- Gofynnwch 4-6 o gwestiynau – cyfuniad o gwestiynau cysylltiedig â hawliau a 'rhai ar hap'. Ar ôl pob cwestiwn, gadewch i'r disgyblion ddewis eu mat, a rhowch amser iddyn nhw drafod. Cysylltwch y drafodaeth ag Erthyglau allweddol fel yn yr enghreifftiau isod.

AWGRYM GWYCH: Atgoffwch y disgyblion ei bod hi'n bwysig iddyn nhw wrando ar ei gilydd (Erthygl 12 – mae gennych chi hawl i gael gwrandawriad).

Cwestiynau cysylltiedig â hawliau:

1. Ydych chi'n mynd i ysgol _____ (rhowch enw'r ysgol)? Erthygl 28 – yr hawl i gael addysg
2. Gawsoch chi frechwast bore ma? Erthygl 24 – yr hawl i gael bwyd da, dŵr glân

- ac i weld meddyg os byddwch chi'n sâl
3. Ydych chi'n teimlo bod pobl yn gwrando arnoch chi yn yr ysgol? Erthygl 12 – yr hawl i gael gwrandawriad a'r rheswm pam mae gennym ni gyngor ysgol
 4. Ydych chi'n mynd i unrhyw glybiau/weithgareddau yn yr ysgol neu ar ôl ysgol? Erthygl 15 – yr hawl i gwrdd â ffrindiau ac ymuno â grwpiau
 5. Ydych chi'n teimlo'n ddiogel yn yr ysgol? Erthygl 19 – mae gennych chi hawl i deimlo'n ddiogel
 6. Ydych chi'n hoffi chwarae? Erthygl 31 – mae gennych chi'r hawl i ymlacio a chwarae
 7. Ydych chi'n gallu siarad iaith arall? Erthygl 30 – mae gennych chi hawl i ddysgu a defnyddio crefydd, iaith ac arferion eich teulu.
 8. Ydych chi erioed wedi clywed am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn cyn heddiw? Erthygl 42 – mae gennych chi hawl i wybod beth yw eich hawliau
 9. Ydych chi'n cael help i ddatblygu eich sgiliau neu eich doniau? Erthygl 29 – eich hawl i fod y gorau gallwch chi fod.

Cwestiynau ar hap sydd heb gysylltiad penodol â hawliau.

10. Oes gennych chi ffôn?
11. Ydych chi'n mynd dramor ar eich gwyliau?
12. Ydych chi'n cael anrhegion ar eich pen-blwydd?
13. Oes gennych chi iPad?
14. Oes gennych chi deledu?
15. Oes gennych chi anifail anwes?

- Gofynnwch i'r disgyblion ystyried ydy pob plentyn yn eu hardal/ynghymru yn cael eu hawliau? Esboniwch fod gan BOB PLENTYN 0-18 oed ar draws y byd bob un o'r 42 hawl yma (sy'n cael eu galw'n Erthyglau).

Datblygu: Pwy sy'n fy helpu i gael (mynediad i) fy hawliau?

- Rhannwch y disgyblion yn grwpiau llai o 4-6 a rhowch [boster hawliau](#) a dalen A3 lân o bapur i bob grŵp. Gofynnwch i'r disgyblion nodi ar y poster y chwe hawl maen nhw'n meddwl sy'n fwyaf pwysig yn yr ysgol.
- Nesaf at bob hawl maen nhw wedi'i dewis, gofynnwch i'r disgyblion ychwanegu llun neu enw rhywun (plant neu oedolion, tu mewn neu tu allan i leoliad yr ysgol) sy'n eu helpu i gael yr hawl yma. Os bydd angen, rhowch awgrymiadau i'r disgyblion, e.e. mae athrawon a chynorthwywyr dysgu yn

eich helpu i ddysgu, mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs) yn helpu i'ch cadw chi'n ddiogel, mae cynorthwyr amser cinio yn eich bwydo, mae pobl lolipop yn helpu i'ch cadw chi'n ddiogel.

- Fel grŵp cyfan, trafodwch y taflenni a gofynnwch iddyn nhw esbonio pam maen nhw wedi dewis y bobl hynny.
- Os yw disgyblion wedi nodi disgyblion eraill, arweiniwch drafodaeth yn cysylltu hynny â pharch a chefnogi dosbarth ac ysgol sydd o blaid hawliau. Os nad yw'r disgyblion wedi nodi ei gilydd, gofynnwch iddyn nhw "Mwy o bwy sydd yn y dosbarth yma – oedolion neu blant?" Yr ateb fydd plant bob amser, felly gofynnwch, "Pwy arall sy'n gorfod gwneud yn siŵr eich bod chi'n cadw'n hapus, yn iach ac yn ddiogel yn y dosbarth yma?" Defnyddiwch eu hatebion i gychwyn trafodaeth am gefnogi hawliau ei gilydd.

Sesiwn Lawn: Sut galla i fod yn rhan o waith y Comisiynydd Plant?

- Soniwch am yr oedolion y cyfeiriodd y dosbarth atyn nhw, ac esboniwch fod Sally Holland, y Comisiynydd Plant, yn rhywun arall gallan nhw ychwanegu at eu taflen – dangoswch y fideos canlynol i gyflwyno Sally a'i gwaith:

[Ffilm i ddangos pwy yw Sally](#)

[Ffilm i esbonio ein gwasanaeth Ymchwilio a Chyngor](#)

- Esboniwch, os yw plant i brofi eu hawliau, fod rhaid iddyn nhw wybod amdany'n nhw. Esboniwch fod gan Sally Holland brosiect o'r enw Llysgenhadon Gwych i roi'r gair ar led am hawliau. Manteisiwch ar y cyfle hwn i gyflwyno eich Llysgenhadon Gwych ac esbonio eu bod nhw'n helpu Sally i wneud ei gwaith trwy wneud y pethau yma:
 - Rhoi gwybod i eraill am hawliau
 - Rhoi gwybod i eraill am Sally Holland
 - Cyflawni tasg arbennig bob tymor – mae'r wers yma'n rhan o dasg arbennig y tymor yma!

AWGRYM GWYCH: Dathlwch eich gwaith yn y wers yma trwy drydar ar [@complantcymru](#) [#AwrHawliau](#). Byddwch chi hefyd yn cael hyd i syniadau gwych am sut mae ysgolion eraill yng Nghymru yn addysgu a dysgu am hawliau trwy ddefnyddio ein hashnod twitter [#AwrHawliau](#)

Syniadau Estyn:

- Ar gyfer yr ystod oed yma rydyn ni'n awgrymu'r Llyfr Caloodle, Gwell Byd i Bob Plentyn, a'r Cwis Atebion Cywir. Mae'r adnoddau hyn a rhagor ar gael am ddim yma <http://www.hawliauplant.cymru/index.php/plant-a-phobl-ifanc/resources>
- Meddyliwch sut mae angen i'r dosbarth cyfan ymddwyn i greu dosbarth neu ysgol sydd o blaid hawliau, ar sail y chwe hawl gafodd eu dewis mewn gweithgaredd cynharach, e.e.
 - Erthygl 19 – mae gan bawb ohonon ni hawl i fod yn ddiogel – beth mae angen i ni wneud i sicrhau ein bod ni i gyd yn ddiogel yn yr ysgol?
 - Erthygl 28 – mae gan bawb ohonon ni'r hawl i ddysgu – beth mae angen i ni wneud i sicrhau ein bod ni i gyd yn manteisio ar y cyfle i ddysgu?
- Gofynnwch i'r disgyblion ystyried a yw'r holl blant yn eu hysgol /yng Nghymru/ yn y byd yn cael y pethau maen nhw eu hangen i dyfu i fyny'n iach, yn hapus ac yn ddiogel? Gallai hyn arwain at drafodaeth sy'n rhoi cyfle i edrych ar hawliau fel cysyniad. Gofynnwch i'r disgyblion feddwl am sut gallan nhw roi'r gair ar led am hawliau plant.